HEDDLU DE CYMRU
SOUTH WALES POLICE

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
South Wales Police and Crime Commissioner

Y Grŵp Cynghori Annibynnol ar gyfer Trwyddedu Arfau Tanio a Ffrwydron
Nos Fawrth 9 Mehefin, 18:00-19:30

Ystafell Gyfarfod 3, Tŷ Morgannwg

1. Y Cadeirydd yn Agor y Cyfarfod

- Croesawodd LA bawb i'r cyfarfod.
  - Gwnaeth y rheini a oedd yn bresennol gyflwyno eu hunain, gan gynrychioli ystod eang o arbenigedd.
  - Esboniodd LA mai pwrpas y cyfarfod yw atgyfnerthu cysylltiadau rhwng adran Arfau Tanio Heddlu De Cymru a'r gymuned saethu, creu tryloywder, rhannu safbwyntiau, nodi cyfleoedd ar gyfer gwella a sefydlu fforwm blaengar ar gyfer cydweithio a datrys problemau.

2. Trafodaeth

Cylch Gorchwyl

- Nodwyd nad oedd pob aelod o'r panel wedi cael copi o'r Cylch Gorchwyl, felly darparwyd trosolwg byr.
- Bydd VS yn dosbarthu'r Cylch Gorchwyl i holl aelodau'r panel. Gofynnwyd i aelodau adolygu'r ddogfen a rhoi unrhyw adborth o fewn wythnos ar ôl ei chael.

Aelodaeth

- Gwnaeth LA hysbysu'r panel bod aelodaeth yn seiliedig ar fod yn fodlon mynd ati i ymgysylltu a chyfrannu, ac mae'n gyfarfod i bawb sy'n cymryd rhan weithio ar y cyd.
- Nododd LA fod unigolion ag arbenigedd sylweddol a phrofiad bywyd gan gynnwys meysydd o'r gwasanaeth milwrol, a phrofiad hirsefydlog o drwyddedu a gorfodi.
- Gwnaeth LA dawelu meddyliau aelodau ei fod yn gyfarfod i weithio ar y cyd ac nid modd o orfodi'r gyfraith yn unig.

3. Diweddariad ar FELD

Y Daith

- Gwnaeth PA draddodi cyflwyniad i'r panel a ysgogodd nifer o drafodaethau cadarnhaol.
- Tynnodd PA sylw at y ffaith bod y swyddogaeth trwyddedu arfau tanio "*ar daith*", gan gydnabod y trawsnewidiad parhaus yn y gwasanaeth, gan gynnwys heriau ynghylch trosiant y gweithlu, datblygu staff newydd, a gwella prosesau.
- Cydnabuwyd bod y ffactorau hyn wedi effeithio ar ddarparu gwasanaethau, yn enwedig mewn perthynas â phrydlondeb, cysondeb a gwneud penderfyniadau.
- Amlinellodd PA waith parhaus i sefydlogi'r swyddogaeth, gwella perfformiad, ac atgyfnerthu prosesau.

- Er bod cynnydd wedi'i gydnabod, cydnabuwyd bod angen rhagor o waith i sicrhau gwasanaeth cyson effeithlon a chanolbwyntio ar y defnyddiwr.
- Cynigiwyd y cynhelir gwaith mewn is-grwpiau rhwng prif gyfarfodydd ac y bydd hyn yn llywio trafodaethau yn y dyfodol.
- Byddai is-grwpiau yn cael eu defnyddio i ddatblygu cynigion ac atebion mwy manwl, y gellir eu hadrodd wedyn yn ôl i'r grŵp ehangach.

Perfformiad

- Nodwyd bod perfformiad yn faes thematig allweddol sy'n gofyn am sylw manwl a gwaith ychwanegol.

- Codwyd pryderon ynglŷn â pherfformiad presennol y gwasanaeth, yn enwedig ynghylch prydlondeb ac oedi wrth brosesu ceisiadau.
- Cydnabuwyd yr effaith ar lefelau perfformiad yn sgîl heriau ynghylch y gweithlu (gan gynnwys cyfraddau gadael uchel a staff dibrofiad).
- Cafwyd trafodaeth ynghylch yr angen am well cysondeb wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau.
- Gwnaed cynnig i sefydlu is-grŵp pwrpasol i ganolbwyntio'n benodol ar faterion perfformiad i ddatblygu camau gweithredu diriaethol ac adrodd yn ôl i'r grŵp ehangach mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- Cytunwyd y dylid gweld a rhannu data perfformiad a metrigau i gefnogi tryloywder a gwelliannau.
- Gwahoddwyd aelodau'r panel i roi adborth ac awgrymiadau ysgrifenedig i helpu i lywio gwaith gwella perfformiad.

4. Datblygiadau / Ar y Gorwel

Cynyddu ffi'r drwydded

- Tynnodd SW sylw at weithredu'r strwythur diwygiedig ar gyfer ffioedd trwyddedu arfau tanio, a ddaeth i rym ar 4 Mehefin 2026, gan nodi bod hyn yn newid sylweddol i ymgeiswyr a deiliaid tystysgrifau.
- Nodwyd y bydd angen cyfathrebu clir i sicrhau bod ymgeiswyr a deiliaid tystysgrifau yn ymwybodol o newidiadau i ffioedd a chanllawiau wedi'u diweddaru.

Canllawiau Diwygiedig ynghylch Trwyddedu Arfau Tanio Mai 2026

- Cyfeiriodd SW at y Canllawiau Statudol diwygiedig ynghylch Trwyddedu Arfau Tanio a gyhoeddwyd ym mis Mai 2026, gan amlinellu y bydd hyn yn llywio gwneud penderfyniadau ac arferion gweithredol yn y dyfodol.
- Disgwylir i ganllawiau statudol Mai 2026 ddylanwadu ar wneud penderfyniadau gweithredol, gan effeithio ar y ffordd o asesu risg, addasrwydd a cheisiadau.

NFLMS2 (Y System Rheoli Trwyddedu Arfau Tanio Genedlaethol)

- Nododd SW ddatblygiad NFLMS2, gan nodi perthnasedd y system i welliannau yn y dyfodol o ran galluedd y system, rheoli data, a darparu gwasanaethau.

Diweddariad i'r System Salesforce

- Rhoddodd SW ddiweddariad ar ddefnyddio a datblygu'r platfform Salesforce, gan dynnu sylw at ei rôl wrth foderneiddio prosesau, gwella rheoli llif gwaith, a chefnogi gwelliannau i berfformiad yn y swyddogaeth drwyddedu.
- Roedd datblygiadau ynghylch NFLMS2 a Salesforce yn alluogwyr allweddol ar gyfer:
    - Gwell cywirdeb data
    - Llifoedd gwaith symlach
    - Monitro perfformiad yn well

5. Unrhyw Fater Arall

- Rhoddwyd nodyn ffurfiol o ddiolch i PA a'i dîm, gan gydnabod eu natur agored a'u parodrwydd i ymgysylltu â'r grŵp.
- Gwnaeth y rheini a oedd yn bresennol gydnabod yn benodol y tryloywder a ddangoswyd, a'u bod yn gwerthfawrogi siarad yn agored am heriau yn y gwasanaeth.
- Gwnaeth aelodau'r panel gydnabod bod y cyflwyniad a'r drafodaeth yn addysgiadol ac yn werthfawr, gan gyfrannu'n gadarnhaol at ddealltwriaeth a gweithio mewn partneriaeth.
- Cadarnhaodd LA y gellid trafod gwybodaeth wedi'i rhannu yn ystod y cyfarfod â sefydliadau priodol oni bai y nodir yn benodol ei bod yn gyfrinachol.
- Gwnaeth aelodau o'r panel awgrymiadau i ystyried yn ofalus sut mae'r grŵp ac unrhyw is-grwpiau wedi'u strwythuro, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod â ffocws ac nid ydynt yn mynd ar drywydd buddiannau cystadleuol.
- Cynigiwyd y dylai *datblygu saethu* fod yn "*bwnc angor*" posibl i ddod â chydlyniant i waith y grŵp a chysoni gwahanol fuddiannau.
- Trafodaethau ynghylch sicrhau bod y rhanddeiliaid cywir yn cael eu cynnwys, gan fod yn agored i wahodd cyfranogwyr ychwanegol pan fo hynny'n briodol.
- Pwysleisiwyd pryderon ynghylch oedi mewn trwyddedu sy'n effeithio ar recriwtio a datblygu ym maes saethu, yn enwedig ar gyfer cyfranogwyr iau.
- Cytunwyd y gellid rhannu materion, syniadau neu gyfraniadau rhwng cyfarfodydd drwy e-bost.

6. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

- Cytunwyd y dylid cynnal cyfarfodydd yn amlach yn y dyfodol, yn hytrach na chyfyngu ymgysylltu i ddwywaith y flwyddyn, er mwyn cynnal momentwm a chynnydd.
- Codwyd pryderon am argaeledd dros gyfnod yr haf, a gwnaeth rhai aelodau dynnu sylw at ymrwymiadau o ran gwyliau.
- Cyrhaeddwyd consensws cyffredinol i gynnal y cyfarfod llawn nesaf ymhen tua thri mis, gan gynnig mai mis Medi yw'r amser o ddewis.
- Cytunwyd i gynnal gweithgarwch is-grwpiau (e.e. perfformiad a thechnoleg) ymlaen llaw, gan gyflwyno canfyddiadau a chynigion i'r cyfarfod llawn nesaf. PA i adrodd yn ôl gydag awgrymiadau ynghylch dyddiad.
- Anogwyd hyblygrwydd a'r opsiwn i gynnal cyfarfodydd neu sesiynau ychwanegol os oes angen er mwyn mynd i'r afael â materion neu ddatblygiadau penodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 19:40